Cofnodion

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad:	Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2024
Amser:	10.00 am
Bresennol:	Cynghorwyr C Townsend, J Cleverly, B Davies, D Jenkins, S Marshall, D Mayer and T Watkins
Yn bresennol:	Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Lucy Jackson (Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Darparwyr), Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol - Gwasanaethau Cymdeithasoland Natalie Poyner (Pennaeth Gwasanaethau Plant)
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr D Fouweather and M Pimm

1 **Ymddiheuriadau**

Cyng D Fouweather, Cyng M Pimm a Cyng L Lacey (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol).

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Datganodd y Cynghorydd J Cleverly fuddiant gan ei bod yn gweithio gyda Chyfiawnder Ieuenctid. Datganodd y Cynghorydd B Davies fuddiant gan fod ei merch yn weithiwr cymdeithasol. Datganodd y Cynghorydd S Marshall a D Harvey fuddiant gan eu bod yn Aelodau Cabinet a oedd â phortffolios yn y maes hwn ar gyfer y tymor y mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu, ac fe wnaethant adael y cyfarfod cyn i Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei drafod.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar **26 Mawrth 2024** yn **gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod**.

4 **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023-24**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Trafodwyd y canlynol:

- Dywedodd y Pwyllgor eu bod yn falch o'r adroddiad a'r astudiaethau achos. Diolchodd y Cyfarwyddwr Strategol i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a ddarparodd yr astudiaethau achos.

- Roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd unrhyw beth ar y wefan am ddigwyddiad côr Let's Shine. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor y byddai'r côr yn parhau oherwydd bod y digwyddiad hwnnw'n cael derbyniad da.
- Diolchodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Strategol am eu gwaith a dymuno'n dda iddynt ar ôl ymddeol.

Sylwadau ac argymhellion:

- Argymhellodd y Pwyllgor fod astudiaethau achos yn parhau i gael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon argymell bod yr adroddiad yn cael ei anfon ymlaen i'r Cabinet fel yr oedd.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

a) Camau Gweithredu

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu fod yna rai camau gweithredu heb eu cwblhau ond y byddent yn parhau i fynd ar eu hôl.

b) Blaenraglen Waith

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor, oherwydd y Cyfnod Cyn yr Etholiad, roedd angen symud yr adroddiadau diwedd blwyddyn. Nodwyd bod cyfarfodydd newydd wedi'u creu:

- 15 Gorffennaf – Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Addysg
- 30 Gorffennaf – Gwasanaethau Oedolion ac Atal a Chynhwysiant

Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i ganslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Gorffennaf 2024.

c) Monitro Canlyniadau

Dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor y bydd y rhain yn cael eu hadfer.

6 **Recordiad o'r Cyfarfod**

Cliciwch yma i wylio'r recordiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.19 am